Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau statudol i ddysgwyr 14 i 16

**Dysgu 14 i 16 o fewn Cwricwlwm i Gymru**

DRAFT

## Canllawiau drafft

Dogfen ganllawiau ddrafft Llywodraeth Cymru: rhif 295/2024
Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2024

# Canllawiau statudol i ddysgwyr 14 i 16

**Cynulleidfa**

Penaethiaid mewn ysgolion a gynhelir ac yn berthnasol i Unedau Cyfeirio Disgyblion

**Trosolwg**

Mae'r canllawiau'n esbonio'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cwricwlwm ysgol ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed o fewn Cwricwlwm i Gymru ac yn ceisio cefnogi ysgolion i gynllunio cwricwlwm sy'n bodloni'r gofynion hynny yn ogystal â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu ac addysgu ym mlwyddyn 10 ac 11.

**Camau i'w cymryd**

Gan fod y canllawiau hyn yn cael eu cyhoeddi o dan adran 71 o'r Ddeddf, mae'n statudol ac felly mae'n rhaid i'r gynulleidfa darged roi sylw iddo wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf. Dylid defnyddio'r canllawiau hyn hefyd fel sail ar gyfer trafodaethau a dysgu proffesiynol o fewn a rhwng ysgolion i gefnogi myfyrio, hunanwerthuso a gwella. Mae'n bwynt cyfeirio wrth adolygu effeithiolrwydd cwricwlwm ysgol ar gyfer blynyddoedd 10 ac 11.

**Rhagor o wybodaeth**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Yr Is-adran Gwella Ysgolion a Chymwysterau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: Dysgu.14-16.learning@llyw.cymru

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

**Copiau ychwanegol**

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn cyfeiriad y wefan https://www.llyw.cymru/dysgu-14-i-16-o-dan-gwricwlwm-i-gymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2024 WG49180

DRAFT

# Cynnwys


1. Diben yr adran hon 2
2. Cyflwyniad 3
3. Cynllunio cwricwlwm ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed 4
4. Hawl i Ddysgu 14 i 16 6
5. Elfennau’r Hawl i Ddysgu 14 i 16: canllawiau pellach 9
6. Hunanwerthuso a gwella 18


DRAFFT

# 1. Diben yr adran hon

## 1.1 Sut mae defnyddio'r canllawiau hyn

1.1.1 Bwriad yr adran hon o ganllawiau fframwaith Cwricwlwm i Gymru yw cefnogi penaethiaid mewn ysgolion a gynhelir i gynllunio a gweithredu cwricwlwm effeithiol i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 fel rhan o'r cwricwlwm 3 i 16 ("cynnig cwricwlwm"). Dylid ei darllen ar y cyd â gweddill canllawiau fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Bydd yn cefnogi ysgolion i ddeall blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnig cwricwlwm ym mlynyddoedd 10 ac 11 a'n polisi o ran sicrhau dysgu ym mhob maes dysgu a phrofiad (Maes).

1.1.2 Gan mai canllawiau a gyhoeddir o dan adran 71 o'r Ddeddf yw'r rhain, maent yn statudol ac, felly, rhaid i'w cynulleidfa darged eu hystyried wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf. Ym mhob rhan o ganllawiau fframwaith Cwricwlwm i Gymru, defnyddiwn y gair 'dylai' yn rheolaidd wrth gyfeirio at y cyngor a nodir mewn canllawiau statudol. Mae'r defnydd o'r gair hwnnw yn cyfeirio at gamau yr argymhellwn yn gryf y dylai ysgolion a lleoliadau eu cymryd. Nid yw'n nodi gofynion mandadol. Gan fod yr argymhellion hyn yn rhan o ganllawiau statudol, rhaid i ysgolion a lleoliadau eu hystyried. Fodd bynnag, gyda rheswm da, gallant benderfynu gwneud rhywbeth gwahanol.

1.1.3 Dylid defnyddio'r canllawiau hyn hefyd fel sail ar gyfer trafodaethau proffesiynol a dysgu o fewn ysgolion a rhyngddynt at ddibenion myfyrio, hunanwerthuso a gwella. Maent yn bwynt cyfeirio wrth adolygu effeithiolrwydd cwricwlwm ysgol ar gyfer blynyddoedd 10 ac 11. Gweler yr adran ar Hunanwerthuso a Gwella i gael rhagor o fanylion ynghylch y broses.

### Unedau Cyfeirio Disgyblion

1.1.4 Mae'r canllawiau hyn wedi'u cyfeirio at benaethiaid ysgolion a gynhelir. Er hynny, mae elfennau ohonynt a allai fod o fudd i athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion wrth iddynt gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer eu huned cyfeirio disgyblion. Mae'r gofynion ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion yn wahanol i ysgolion a gynhelir. Mae crynodeb o'r gofynion ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion i'w gweld yma. Serch hynny, efallai y bydd athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion a'r pwyllgor rheoli yn gweld bod modd defnyddio'r egwyddorion ar gyfer cynllunio cwricwlwm i ddysgwyr 14 i 16 oed i gefnogi cynllunio cwricwlwm ar gyfer eu dysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 hefyd.

## 2. Cyflwyniad

O fewn Cwricwlwm i Gymru, rhaid i gwricwlwm ysgol fodloni'r gofynion a nodir yn y Ddeddf; mae adran crynodeb o'r ddeddfwriaeth fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn nodi'r gofynion cyfreithiol hyn.

### 2.1 Mandadol

2.1.1 Yn gryno, ar gyfer ysgolion a gynhelir, rhaid i'r pennaeth sicrhau y cynllunnir cwricwlwm ar gyfer addysgu a dysgu i bob dysgwr cofrestredig yn yr ysgol rhwng 3 a 16 oed. Rhaid i'r cwricwlwm:

- sicrhau y gall dysgwyr ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben
- bod yn addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau a chamau dysgu
- bod yn eang ac yn gytbwys
- gwneud darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu ym mhob maes dysgu a phrofiad (Maes)
- darparu ar gyfer cynnydd priodol yn unol â'r egwyddorion cynnydd
- darparu ar gyfer dysgu ac addysgu yn elfennau mandadol y cwricwlwm gan gynnwys y sgiliau trawsgwricwlaidd, addysg cydberthynas a rhywioldeb, a chrefydd, gwerthoedd a moeseg.

2.1.2 Mae'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cwricwlwm i ddysgwyr 14 i 16 oed yn rhannol wahanol i'r rhai ar gyfer cwricwlwm i ddysgwyr 3 i 14 oed. Mae hyn er mwyn ystyried y dewisiadau a wna dysgwyr mewn perthynas â rhai o'r cyrsiau a ddilynant ym mlynyddoedd 10 ac 11 sy'n arwain at gymwysterau.

2.1.3 Y gwahaniaeth ar gyfer blynyddoedd 10 ac 11 (14 i 16 oed) yn wahanol i ddysgwyr 3 i 14 oed yw, er bod rhaid sicrhau dysgu ac addysgu ym mhob Maes, nid yw'n ofynnol dysgu ym mhob datganiad o'r hyn sy'n bwysig. Fodd bynnag, mae angen i bob Maes fod yn rhan o'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Crynodeb o'r ddeddfwriaeth - Hwb (llyw.cymru)

2.1.4 Bydd ysgolion hefyd wedi cynllunio eu cwricwlwm 3 i 16 gan ystyried canllawiau statudol gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith. Wrth i ddysgwyr symud i flynyddoedd 10 ac 11, bydd eu haddysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith yn canolbwyntio mwy ar eu paratoi ar gyfer camau nesaf ôl-16.

## 3. Cynllunio cwricwlwm ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed

3.1 O fewn Cwricwlwm i Gymru, mae'r pedwar diben yn cynrychioli'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer cwricwlwm ysgol a dylai pob dysgwr fod yn gwneud cynnydd ac yn datblygu mewn ffyrdd a ddisgrifir gan y dibenion hynny.

3.2 Bwriad Cwricwlwm i Gymru yw cefnogi continwwm cynnydd cydlynol o 3 i 16. Mae'r Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a'r Cod Cynnydd, ochr yn ochr â chanllawiau fframwaith Cwricwlwm i Gymru y mae rhaid i bob ysgol eu hystyried, wedi eu llunio i gymhwyso i gynllunio cwricwlwm, dysgu ac addysgu ar draws y continwwm hwn. Wrth gwrs, wrth i ddysgwyr gyrraedd blwyddyn 10, byddant yn dechrau arbenigo mewn rhai agweddau ar ddysgu ac yn dilyn rhai 'cyrsiau astudio sy'n arwain at gymwysterau' [1](cymwysterau). Er y bydd y dysgu a geir yn ystod y cyrsiau astudio hynny yn cael ei lywio gan ofynion y cymwysterau, dylai’r holl ddysgu o fewn Cwricwlwm i Gymru barhau i fod yn gyson â fframwaith Cwricwlwm i Gymru ac yn unol â'r Cod cynnydd.

3.3 Felly, dylai cynllunio cwricwlwm, addysgu a dysgu fod yn seiliedig ar gynnydd dysgwyr ar hyd y continwwm 3-16, gyda chwricwlwm ysgol i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 yn rhan barhaus o daith y cwricwlwm 3 i 16. Ym mlynyddoedd 10 ac 11, bydd cynnydd yn cael ei gefnogi gan ddysgu sy'n digwydd wrth i ddysgwyr ddilyn cymwysterau yn ogystal â thrwy'r dysgu a'r profiadau ehangach a ddarperir gan yr ysgol.

3.4 Diwygiwyd cymwysterau TGAU i gydnabod Cwricwlwm i Gymru. Dylai dysgwyr sydd wedi bod yn dysgu o fewn Cwricwlwm i Gymru fod yn astudio ar gyfer cymwysterau diwygiedig pan fo modd. Golyga hyn y dylai dysgwyr a fydd yn dechrau blwyddyn 10 ym mis Medi 2025 fod yn dewis o'r cynnig TGAU newydd a wnaed i Gymru, yn hytrach nag unrhyw hen gymwysterau. O fis Medi 2027 ymlaen, dylai pob dysgwr fod yn gwneud eu dewisiadau ynghylch cymwysterau o'r cynnig Cymwysterau 14 i 16 Cenedlaethol (yn ogystal ag unrhyw gymwysterau y gellir eu dynodi ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 oed o dan bolisi dynodi diwygiedig Cymwysterau Cymru). Cydnabyddir y bydd ysgolion, y tu allan i'r cynnig TGAU, yn parhau i gynnig i ddysgwyr gymwysterau sydd eisoes yn bodoli ac a ddynodwyd fel rhai sy’n gymwys i'w defnyddio ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 oed, nes bod yr ystod lawn o Gymwysterau 1 i 16 Cenedlaethol ar gael o fis Medi 2027.

## Egwyddorion dysgu 14 i 16

3.5 Dylai'r holl ddysgu a’r addysgu ym mlynyddoedd 10 ac 11 gael eu trefnu a'u cynllunio yn unol â fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn cynghori ysgolion yn gryf i gymhwyso egwyddorion cynllunio cwricwlwm o fewn Cwricwlwm i Gymru i unrhyw brofiadau dysgu a ddarperir ym mlynyddoedd 10 ac 11, gan gynnwys unrhyw ddysgu sy'n rhan o gymhwyster. Yn allweddol i hyn bydd addysgu o ansawdd uchel a phenderfyniadau addysgegol cytbwys (a gefnogir gan y 12 egwyddor addysgegol). O'r herwydd, dylai'r profiadau dysgu hyn deimlo fel rhan barhaus o daith 3-16 y dysgwr.

3.6 Dylai ymarferwyr barhau i ystyried ‘sut’ a ‘pham’ mewn perthynas â'r dysgu wrth gynllunio eu cwricwlwm a dewis eu dulliau addysgegol, gan sicrhau bod profiadau dysgu yn ddeniadol ac yn berthnasol i'w dysgwyr. Mae’r egwyddorion cynnydd yn cynnig fframwaith

---

[1] Cwrs addysg neu hyfforddiant sy'n arwain at ffurf ar gymhwyster neu set o ffurfiau ar gymhwyster a gymeradwyir o dan Ran 4 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 neu a ddynodir o dan Ran 5 o'r Ddeddf honno neu a ddynodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 34(8) o'r Ddeddf honno.

ar gyfer rhan o'r broses feddwl hon. Cynghorir ysgolion ac ymarferwyr i ofyn iddynt eu hunain, er enghraifft:

- Beth yw diben y dysgu hwn? Pam mae'r dysgu hwn yn bwysig i ddysgwyr? Sut y byddwn yn pennu anghenion ein dysgwyr a chynllunio'n effeithiol ar gyfer eu cynnydd?
- Beth ddylai dysgwyr ei ddeall a sut gallwn ddyfnhau'r ddealltwriaeth honno?
- Pa wybodaeth angenrheidiol sydd ei hangen? Pa mor eang a dwfn sydd angen i'r wybodaeth honno fod?
- Pa sgiliau sydd angen eu mireinio i ddatblygu'r ddealltwriaeth hon a sut y gall dysgwyr ddatblygu mwy o soffistigedigrwydd?
- Sut y gellir rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso'r dysgu hwnnw o fewn ystod o gyd-destunau dilys? Pa elfennau y gellir eu trosglwyddo i unedau, pynciau neu gyd-destunau eraill? Pa gysylltiadau eraill y gellir eu gwneud?
- Sut y gall unigolion ddod yn fwy effeithiol fel dysgwyr yn ystod y dysgu hwn? Beth yw eu hanghenion penodol a sut y gellir eu herio/cefnogi?

3.7 Yn arbennig ym mlynyddoedd 10 ac 11, gall profiadau dysgwyr yn aml gael eu dylanwadu gan asesu, yn enwedig fel rhan o gymhwyster. Dylai ysgolion sicrhau bod adran statudol 'Cefnogi cynnydd dysgwyr - canllawiau asesu' fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn parhau i fod yn sail i'w trefniadau asesu ar hyd y continwwm 3-16 cyfan.

3.8 Mae'n bwysig nodi y gall asesu a gynlluniwyd i gefnogi dysgwyr unigol o ddydd i ddydd yn barhaus ac a ddefnyddir i adnabod, nodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser gyfrannu'n sylweddol at lesiant meddyliol, emosiynol a chymdeithasol pob dysgwr.

3.9 Mae rhywfaint o gyngor ymarferol i ysgolion ar hyn i'w gael yn Asesu a llesiant dysgwyr: systemau cymorth cydfuddiannol. Mae'n annog ymarferwyr i gynllunio asesu mewn ffyrdd sy'n gwella cyfleoedd i feithrin llesiant dysgwyr drwy ganolbwyntio ar ddatblygu eu hymlyniad, eu hymreolaeth a'u galluedd. Gall sicrhau dull ysgol gyfan o'r math hwn annog ymarferwyr i ystyried y ffordd y maent yn cynllunio eu cwricwlwm ac asesu, yn enwedig wrth ymdrin â manylebau allanol ar gyfer cymwysterau.


DRAFT

# 4. Hawl i Ddysgu 14 i 16


## 4.1 Elfennau allweddol dysgu 14 i 16 o fewn Cwricwlwm i Gymru

4.1.1 Rhaid i gynnig cwricwlwm ysgol ym mlynyddoedd 10 ac 11 roi proffil dysgu eang a chytbwys i ddysgwyr, ynghyd â phrofiadau a luniwyd gan gyfeirio at bedair elfen Hawl i Ddysgu 14 i 16 (isod). Dylai ysgol sicrhau y gall ei holl ddysgwyr ddangos a chyfleu eu dysgu, eu cynnydd a'u cyflawniadau mewn perthynas â phob un o'r pedair elfen pan fyddant yn cwblhau addysg orfodol yn 16 oed. Dylid defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth sy'n ymwneud â hyn i lywio prosesau hunanwerthuso a gwella ysgolion (gweler isod). I ddysgwyr unigol, bydd eu Hawl yn cynnwys amrywiaeth o wahanol ddysgu, profiadau a chyflawniadau ar draws yr elfennau hyn.

## 4.2 Hawl i Ddysgu 14 i 16 (yr Hawl)




4.2.1 Dylai ysgolion drefnu eu hamser a'u hadnoddau cwricwlwm o amgylch pedair elfen yr Hawl. Fel y dangosir isod, nid yw'r pedair elfen yn annibynnol ar ei gilydd; bydd dysgwyr yn dod ar draws dysgu a phrofiadau ar draws y cwricwlwm a dylent allu manteisio ar hynny i gyd wrth iddynt fyfyrio ar eu cynnydd a'u cyflawniadau, a chynllunio ar gyfer pontio ôl-16. Dylai ysgolion annog ymarferwyr i weld eu cyfraniad i'r cyfan, yn hytrach na gweld eu rôl ar wahân wrth ddarparu un agwedd ar y cwricwlwm. Gellir cyflawni hyn drwy ganolbwyntio ar gynllunio cwricwlwm effeithiol ac addysgu o ansawdd uchel.




4.2.2 **Myfyrio a chynllunio ôl-16: cynyddu effeithiolrwydd dysgwyr –** cynnig parhaus o amser cwricwlwm pwrpasol i ddysgwyr fyfyrio ar eu cynnydd a chynllunio ar gyfer camau ôl-16.

4.2.3 Cynghorwn y dylid defnyddio'r amser hwn i ganolbwyntio ar gefnogi unigolion i ddatblygu eu heffeithiolrwydd fel dysgwyr, lle cânt eu cefnogi a’u herio i feddwl am eu cryfderau, eu meysydd gwella, eu nodau a’u huchelgeisiau, gan sicrhau bod ganddynt gymhelliant a'u bod yn gosod safonau uchel ar eu cyfer eu hunain. Bydd hefyd yn caniatáu i ddysgwyr ystyried eu camau nesaf ôl-16 a chael eu cefnogi â hwy. Gall hyn gynnig cyfle i ysgolion ddarparu addysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith mwy penodol ac addas ym mlynyddoedd 10 ac 11.

4.2.4 Dylai'r elfen hon gwmpasu'r holl ddysgu a'r holl brofiadau y mae dysgwr yn dod ar eu traws yn eu taith 14 i 16; dylai alluogi dysgwyr i fyfyrio ar eu dysgu a'u cynnydd ar draws y cwricwlwm wrth iddynt geisio defnyddio eu cryfderau a chynllunio ar gyfer gwelliannau. Ceir disgrifiad manylach o'r elfen hon isod.

4.2.5 **Cymwysterau mewn llythrennedd a rhifedd –** cynnig cymwysterau priodol ac uchelgeisiol mewn llythrennedd a rhifedd lle mae angen i bob dysgwr ddangos ei gyrhaeddiad i hwyluso cynnydd llwyddiannus yn y dyfodol.

4.2.6 Mae'r elfen hon yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i ddysgwyr ennill cymwysterau mewn llythrennedd a rhifedd ar gyfer eu cyfnodau pontio ôl-16.

4.2.7 **Cymwysterau i annog ehangder** – cynnig o gyfres ehangach o gymwysterau y gall dysgwyr ddewis ohonynt, wrth iddynt ddechrau arbenigo, sy'n cefnogi cynnydd mewn dysgu a llwybrau gyrfa yn y dyfodol ond sydd hefyd yn cynnal ehangder y dysgu.

4.2.8 Dylai ysgolion geisio cynnig amrywiaeth eang a chytbwys o ddewisiadau sy'n adlewyrchu anghenion eu dysgwyr, a ddylai gynnwys cymwysterau cyffredinol, galwedigaethol a chymwysterau sy’n seiliedig ar sgiliau ar bob lefel cymhwyster priodol.

4.2.9 Anogir ysgolion i archwilio cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth – gydag ysgolion a cholegau eraill – pan fo hyn yn caniatáu i'r ysgol ehangu'r cynnig cwricwlwm sydd ar gael i'w dysgwyr a phan fo hyn er budd gorau'r dysgwyr hynny.

4.2.10 **Dysgu a phrofiadau ehangach ar draws y cwricwlwm** – cynnig ehangder o gyfleoedd dysgu sy'n datblygu gwybodaeth a sgiliau ac yn darparu profiadau ar draws y cwricwlwm.

4.2.11 Rhaid i ysgolion sicrhau bod pob dysgwr, waeth beth yw’r cymwysterau a ddewisir ganddynt, yn sicrhau dysgu ym mhob Maes ac ym mhob un o elfennau mandadol y cwricwlwm (gan gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg). Nid oes angen i'r holl ddysgu a phrofiadau ym mlynyddoedd 10 ac 11 arwain at gymhwyster ffurfiol. Fodd bynnag, mewn perthynas â pheth o'r dysgu ehangach hwn, efallai y bydd ysgolion am ddarparu cyrsiau astudio sy'n arwain at gymhwyster i gefnogi cynnydd dysgwyr. Mae'n hanfodol bod y dysgu ehangach hwn yn cyfrannu at gynnydd dysgwr tuag at y pedwar diben.

4.2.12 Fel rhan o’r elfen hon o ddysgu ehangach, rydym yn cynghori ysgolion yn gryf i roi cyfle (a chymorth ac amser cwricwlwm cysylltiedig) i bob dysgwr ar gyfer mwy o astudio annibynnol. Gweler rhagor o fanylion isod o dan yr is-adran **Annibyniaeth a dysgu dyfnach**.

DRAFT

# 5. Elfennau'r Hawl i Ddysgu 14 i 16: canllawiau pellach

## 5.1 Myfyrio a chynllunio ôl-16

5.1.1 Mae datblygu effeithiolrwydd ein dysgwyr wrth iddynt wneud cynnydd tuag at y pedwar diben yn sylfaenol ac yn rhan o'r gofynion cynnydd mandadol.

5.1.2 Mae'r egwyddor cynnydd hon yn eang a gall ymwneud ag ystod o agweddau ar ddatblygiad dysgwyr. Yng nghyd-destun elfen '*Myfyrio a chynllunio ôl-16'* dysgu 14 i 16, byddem yn cynghori ysgolion i ystyried sut mae dysgwyr:

- yn dod yn fwyfwy effeithiol *fel dysgwyr* mewn cyd-destunau cymdeithasol a rhai cysylltiedig â gwaith (dod yn ddysgwyr gydol oes);
- yn dod yn fwy medrus i adnabod cymorth priodol gyda mwy a mwy o annibyniaeth;
- datblygu dulliau hunanwerthuso mwyfwy llwyddiannus, nodi eu camau nesaf (o ran y dysgu a thu hwnt) a datblygu dulliau hunanreoleiddio mwy effeithiol

5.1.3 Dylai ysgolion ddyrannu amser cwricwlwm priodol i ddysgwyr fyfyrio ar yr hyn y maent yn ei ddysgu a'i brofi yn ystod blynyddoedd 10 ac 11 (yn ogystal ag unrhyw ddysgu blaenorol perthnasol), a fydd hefyd yn cynnwys amser i archwilio a chynllunio ar gyfer y camau nesaf ôl-16. Er y bydd rhywfaint o hyn yn digwydd yn anochel fel rhan naturiol o'r dysgu a'r addysgu ar draws y cwricwlwm, mae'n bwysig bod gan ddysgwyr amser a chymorth pwrpasol yn hyn o beth.

5.1.4 Mae adran gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith canllawiau fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn amlinellu rhai o'r agweddau allweddol ar gymorth, cyngor, dysgu a phrofiadau y bydd eu hangen ar ddysgwyr ar gyfer gwaith a chamau nesaf ôl-16.

5.1.5 Dylai ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i fyfyrio ar eu cryfderau a'u meysydd gwella fel unigolion, ar draws eu dysgu. Gallai hyn gynnwys:

- ystyried gofynion ar gyfer llwybrau ôl-16 (o ran cymwysterau, sgiliau, priodoleddau a nodweddion);
- cynnal dadansoddiad cytbwys o opsiynau ar gyfer llwybrau ôl-16, gan sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cynghori'n llawn ac yn gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth (byddai hyn yn cynnwys sicrhau bod gan ddysgwyr ddigon o wybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac mewn darparwyr ôl-16 eraill);
- adnabod meysydd lle mae angen cymorth neu her ychwanegol ar ddysgwyr mewn perthynas â'r uchod, a gosod cynllun clir ar gyfer cynnydd;
- creu darlun cyfannol a meithrin dealltwriaeth o'u dysgu, eu cynnydd a'u cyflawniadau, ac ystyried sut y bydd y rhain yn eu cefnogi yn y dyfodol;
- myfyrio ar agweddau ar eu dysgu o fewn disgyblaethau penodol, ac ystyried sut y gallai'r rhain gysylltu â dysgu a phrofiadau eraill (yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol);
- myfyrio ar agweddau ar eu bywyd y tu allan i'r ysgol ac ystyried pethau sy'n helpu neu'n rhwystro eu cynnydd;
- rhoi cyfleoedd iddynt arddangos yr hyn a ddysgant a'u cyflawniadau y tu allan i'r ysgol yn ogystal ag yn yr ysgol, a myfyrio arnynt, er enghraifft: cyflawniadau ym meysydd chwaraeon neu gerddoriaeth; gwobrau Dug Caeredin; nodweddion neu sgiliau a ddatblygwyd o ganlyniad i amgylchiadau personol (er enghraifft, bod yn ofalwr mewn cartref).

DRAFT

5.1.6 Gallai ysgolion ystyried sut y byddai portffolio digidol ar gyfer y dysgwyr, lle gellir cefnogi dysgwyr i goladu'r wybodaeth hon mewn un lle digidol, gefnogi'r broses barhaus honno o fyfyrio ar gynnydd, a chynllunio ar ei gyfer.

## 5.2 Sicrhau cynnig eang o ddysgu a phrofiadau i gefnogi llwybrau dysgwyr

5.2.1 Mae'r adran hon yn cynnwys:

- yr hyn a gynghorwn ysgolion i'w wneud er mwyn gofalu bod y cwricwlwm yn 'sicrhau dysgu'[2] ym mhob Maes;
- yr ystod o gyrsiau y dylai ysgolion eu cynnig i ddysgwyr ym mhob Maes.

5.2.2 Fel yr amlinellwyd uchod, y gwahaniaeth i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 (yn wahanol i ddysgwyr hyd at a chan gynnwys blwyddyn 9) yw, er bod rhaid sicrhau dysgu ac addysgu ym mhob Maes, nid oes angen dysgu ym mhob datganiad o'r hyn sy'n bwysig. Fodd bynnag, mae angen i bob Maes fod yn rhan o'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 p'un a ydynt yn ymgymryd â chymhwyster yn y Maes hwnnw ai peidio. Crynodeb o'r ddeddfwriaeth - Hwb (llyw.cymru).

## 5.3 Sicrhau dysgu ym mhob Maes

5.3.1 Pan fydd ysgolion yn ystyried eu dull o **sicrhau dysgu** ym mhob Maes, rhaid i'w cwricwlwm a'u trefniadau asesu ganiatáu i ddysgwyr wneud cynnydd priodol yn unol â'r gofynion cynnydd mandadol. Byddem hefyd yn eu cynghori'n gryf i gynllunio dysgu a phrofiadau sydd:

- yn defnyddio themâu o amrywiaeth o ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwnnw;
- yn crynhoi nodau eang y Maes fel a ddisgrifir yn adrannau 'Cyflwyniad i'r Maes' y canllawiau fframwaith hyn ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.

5.3.2 P'un a yw dysgwr yn ymgymryd â chymhwyster mewn Maes ai peidio, wrth sicrhau dysgu ym mhob Maes, dylai'r dysgu fod:

- yn ystyrlon, gan ganiatáu i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth;
- yn cefnogi cynnydd yn y galluoedd, yr ymagweddau a'r nodweddion a nodir yn y pedwar diben;
- yn herio dysgwyr a'u galluogi i wneud cynnydd yn y Maes hwnnw;
- yn cynnwys nifer o brofiadau dysgu dros y ddwy flynedd yn hytrach na darparu profiad 'untro'.

---

[2] Mae adran 30 (1) a (2) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn datgan fel a ganlyn

> *(1) Rhaid gweithredu'r cwricwlwm mabwysiedig yn unol ag is-adran (2) i ddisgyblion sydd wedi cwblhau'r flwyddyn ysgol y cyrhaeddodd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn eu dosbarth 14 oed ynddi*
> *(2) Rhaid gweithredu'r cwricwlwm mabwysiedig mewn ffordd—*
> *(a) sy'n sicrhau addysgu a dysgu i bob disgybl sy'n cwmpasu'r elfennau mandadol o fewn y meysydd dysgu a phrofiad, a*
> *(b) sy'n sicrhau addysgu a dysgu arall i bob disgybl ym mhob maes dysgu a phrofiad*



DRAFT

5.3.3 Wrth gwrs, bydd angen i ysgolion gydbwyso'r gofyniad cyfreithiol i sicrhau dysgu â gofynion cwblhau cymwysterau. Pan fo'n bosibl, cynghorir ysgolion i ystyried cyfleoedd i ddatblygu profiadau dysgu rhyngddisgyblaethol a all gyfrannu at ddysgwyr yn sicrhau dysgu mewn sawl Maes; gallai hyn hefyd gynnwys archwilio cyfleoedd lle gellir adeiladu ar ddysgu mewn un Maes neu ei ehangu (naill ai fel rhan o gymhwyster neu fel arall) er mwyn helpu i sicrhau dysgu mewn Maes arall. Yma, bydd yr amser a roddir i ddysgwyr fyfyrio ar eu dysgu o fudd, a gall ymarferwyr gefnogi'r broses honno o wneud cysylltiadau rhwng gwahanol ddysgu a phrofiadau.

5.3.4 Mae'r Hawl i Ddysgu 14 i 6 wedi'i gynllunio i gefnogi ysgolion i sicrhau dysgu ac addysgu ar draws holl Feysydd y cwricwlwm, ac i fodloni eu rhwymedigaethau statudol o ran y cwricwlwm. O'r herwydd, gellir 'sicrhau dysgu' ar draws pob un o bedair elfen yr Hawl.

Mae canllawiau penodol ar bob Maes i'w gweld isod.

## 5.4 Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

5.4.1 Fel y disgrifir yn y cyflwyniad i'r Maes o fewn canllawiau fframwaith Cwricwlwm i Gymru, nod y Maes hwn yw cefnogi dysgu ar draws y cwricwlwm cyfan a galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a sgiliau yn Gymraeg, Saesneg, ac ieithoedd rhyngwladol, gan gynnwys mewn llenyddiaeth.

5.4.2 Fel sgìl drawsgwricwlaidd, dylai llythrennedd fod yn rhan o gwricwlwm dysgwr a dylai pob ymarferydd fod yn cefnogi eu cynnydd yn hynny o beth. Dylai hyn hefyd ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu gyda mwy a mwy o annibyniaeth mewn cyd-destunau amrywiol; dylid cefnogi dysgwyr i fyfyrio ar eu cynnydd yn unol â’r egwyddorion cynnydd.

5.4.3 O ran pob dysgwr unigol, yr ysgolion fydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ar y cymwysterau llythrennedd mwyaf priodol ar gyfer pob dysgwr yn Gymraeg a Saesneg. Hwy yn y pen draw fydd yn gyfrifol am y penderfyniadau hynny, gan ystyried dewisiadau, dysgu blaenorol, dyheadau a llwybrau dysgwyr.

## 5.5 Cymraeg

5.5.1 Rydym yn cynghori ysgolion yn gryf i ystyried sut y maent yn cynnig sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd addas a heriol yn eu sgiliau ar hyd continwwm y Gymraeg drwy gynyddu faint o gyfarwyddyd Cymraeg a roddir yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg eu hawdurdod lleol.

5.5.2 Ym mlynyddoedd 10 ac 11 dylai ysgolion ystyried rôl cymwysterau o ran cefnogi'r angen i adeiladu ar ddysgu blaenorol hyd at a chan gynnwys blwyddyn 9.

5.5.3 Fel rhan o’r *'Cymwysterau mewn llythrennedd a rhifedd'* ym mlynyddoedd 10 ac 11, dylai pob dysgwr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg categori 3 ddilyn cwrs heriol ac uchelgeisiol sy'n arwain at gymhwyster mewn Cymraeg. Bydd hyn yn caniatáu i ysgolion fodloni'r gofyniad i gynnwys y pwnc hwn fel rhan fandadol o'u cwricwlwm.

5.5.4 Mae'r gyfres newydd o gymwysterau TGAU a wnaed i Gymru yn cynnig TGAU dyfarniad sengl a dyfarniad dwbl integredig mewn Cymraeg iaith a llenyddiaeth.

- Cyflwynwyd y dyfarniad dwbl i ddarparu'r cymhwyster mwyaf priodol ar gyfer y mwyafrif o ddysgwyr mewn ysgolion categori 3.
- Mae'r dyfarniad sengl yn darparu llwybr amgen i'r gyfran fach o ddysgwyr a fyddai'n elwa ar ddilyn cymhwyster gyda llai o gynnwys na'r dyfarniad dwbl, o ystyried eu hamgylchiadau penodol.
- Dylid rhoi cyfle i'r rhai sy'n ymuno ag ysgolion categori 3, nad ydynt wedi astudio yn flaenorol mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg, fynychu canolfan drochi hwyr er mwyn gallu ymgymryd â chymhwyster TGAU Cymraeg.
- O ran dysgwyr mewn ysgolion categori 3 sy'n dechrau blwyddyn 10 yn 2025 a 2026, nad ydynt yn barod i ymgymryd â dyfarniad unigol na dyfarniad dwbl mewn TGAU Cymraeg iaith a llenyddiaeth, dylent ddilyn y cymhwyster Cymraeg lefel mynediad.

5.5.5 Ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg categori 1, mae'r gyfres o gymwysterau TGAU a wnaed i Gymru yn cynnig cyrsiau i sicrhau y gall pob dysgwr barhau i wneud cynnydd, ac ennill cymhwyster yn 16 oed, mewn Cymraeg. Felly, dylai pob dysgwr barhau i gael y cyfle i astudio tuag at gymhwyster digon heriol ac uchelgeisiol mewn Cymraeg.

- Mae'r cymhwyster TGAU Cymraeg craidd newydd wedi'i gyflwyno i gymryd lle a datblygu'r TGAU Cymraeg ail iaith presennol.
- Yn ogystal â'r prif TGAU, mae'r cymhwyster lefel 2 newydd mewn Cymraeg craidd ychwanegol wedi'i gyflwyno ar gyfer dysgwyr sy'n gwneud cynnydd da yn eu hastudiaethau TGAU Cymraeg craidd ac sy'n barod i symud ymlaen ymhellach ar hyd continwwm y Gymraeg. Mae'r cymhwyster hwn yn adeiladu ar y dysgu o'r cymhwyster TGAU Cymraeg craidd ac yn rhoi cyfleoedd ymestyn a herio ychwanegol i ddysgwyr sydd â'r gallu neu'r diddordeb i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach. Nid yw'n ddewis amgen i TGAU Cymraeg craidd.

5.5.6 Ar gyfer ysgolion dwy iaith categori 2, mae'r gyfres o gymwysterau TGAU a wnaed i Gymru yn yr un modd yn cynnig cyrsiau i sicrhau y gall pob dysgwr barhau i wneud cynnydd, ac ennill cymhwyster yn 16 oed, mewn Cymraeg. Felly, dylai pob dysgwr barhau i gael y cyfle i astudio tuag at gymwysterau sy'n ddigon heriol ac uchelgeisiol iddynt mewn Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys cyfran uwch o ddysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau ymhellach ar hyd continwwm y Gymraeg nag mewn ysgolion categori 1, yn seiliedig ar eu gallu a'u dysgu blaenorol.

5.5.7 Dylai dysgwyr mewn ysgolion categori 1 a 2 sydd wedi ymgymryd ag astudiaeth flaenorol mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg gael cyfle i astudio cymwysterau o'r gyfres o gymwysterau sydd fwyaf priodol i lefel eu gallu. Mae hyn yn cynnwys y cyfle i astudio TGAU Cymraeg iaith a llenyddiaeth a'r dyfarniad lefel 2 mewn Cymraeg craidd ychwanegol, pan fo'u hysgol o'r farn mai'r cymwysterau hyn sydd fwyaf priodol i lefel eu gallu. Pan fo ysgolion o'r farn mai dyfarniad lefel 2 mewn Cymraeg craidd ychwanegol sydd fwyaf priodol i lefel gallu eu dysgwyr, dylent sicrhau bod maes llafur TGAU Cymraeg craidd wedi'i drin yn ddigonol.

## 5.6 Saesneg

5.6.1 Fel rhan o’r *'Cymwysterau mewn llythrennedd a rhifedd'* ym mlynyddoedd 10 ac 11, dylai pob dysgwr ddilyn cwrs heriol ac uchelgeisiol sy'n arwain at gymhwyster mewn Saesneg. Bydd hyn yn caniatáu i ysgolion fodloni'r gofyniad i gynnwys y pwnc hwn fel rhan fandadol o'u cwricwlwm.

DRAFT

5.6.2 Mae'r gyfres newydd o gymwysterau TGAU a wnaed i Gymru yn cynnig TGAU dyfarniad sengl a dyfarniad dwbl integredig mewn Saesneg iaith a llenyddiaeth.

- Mae'r dyfarniad dwbl wedi'i gyflwyno i ddarparu'r cymhwyster mwyaf priodol ar gyfer y mwyafrif o ddysgwyr ym mhob ysgol.
- Mae'r dyfarniad sengl yn darparu llwybr amgen i'r gyfran fach o ddysgwyr a fyddai'n elwa ar ddilyn cymhwyster gyda llai o gynnwys na'r dyfarniad dwbl, o ystyried eu hamgylchiadau penodol.

5.6.3 O ran dysgwyr sy'n dechrau blwyddyn 10 yn 2025 a 2026, ac nad ydynt yn barod i ymgymryd â dyfarniad sengl na dyfarniad dwbl mewn cymhwyster TGAU Saesneg iaith a llenyddiaeth, dylent ddilyn cymhwyster Saesneg lefel mynediad. Fel rhan o'r ystod o Gymwysterau 14 i 16 Cenedlaethol, o 2027 ymlaen ochr yn ochr â'r cymwysterau TGAU Saesneg, bydd cymhwyster Sylfaenol mewn Saesneg sy'n rhychwantu lefel mynediad a lefel 1, gan ddarparu llwybr amgen i gymhwyster llythrennedd i rai dysgwyr.

## 5.7 Ieithoedd rhyngwladol

5.7.1 Bydd rhai dysgwyr yn dewis dilyn cymwysterau mewn un neu ragor o ieithoedd rhyngwladol; cynghorir ysgolion i sicrhau bod yr opsiwn hwn ar gael i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 o dan elfen *'Cymwysterau i annog ehangder'* yr Hawl i Ddysgu 14 i 16. Pan na fo dysgwyr yn dewis dilyn cymhwyster mewn iaith ryngwladol, anogir ysgolion i roi cyfleoedd i ddysgwyr barhau â'u cynnydd yn hyn o beth o dan yr elfen 'Dysgu a phrofiadau ehangach ar draws y cwricwlwm*'* .

## 5.8 Mathemateg a Rhifedd

5.8.1 Fel y disgrifir yn y cyflwyniad i'r Maes o fewn fframwaith Cwricwlwm i Gymru, mae'r Maes hwn yn un sy'n sail i gynifer o agweddau ar ein bywydau bob dydd ac yn hanfodol ar gyfer gwneud cynnydd mewn Meysydd eraill.

5.8.2 Fel sgìl drawsgwricwlaidd, dylai rhifedd fod yn rhan o gwricwlwm dysgwr a dylai pob ymarferydd fod yn cefnogi eu cynnydd yn hynny o beth. Cynghorir y dylai hyn hefyd ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau rhifedd gydag annibyniaeth gynyddol mewn cyd-destunau amrywiol; dylid eu cefnogi i fyfyrio ar eu cynnydd yn unol â'r egwyddorion cynnydd.

5.8.3 Fel rhan o'r *'Cymwysterau mewn llythrennedd a rhifedd'* ym mlynyddoedd 10 ac 11, dylai pob dysgwr ddilyn cwrs uchelgeisiol a digon heriol sy'n arwain at gymhwyster yn y Maes hwn.

5.8.4 Mae'r gyfres o gymwysterau TGAU newydd a wnaed i Gymru yn cynnig cwrs TGAU dyfarniad dwbl mathemateg a rhifedd. Cyflwynwyd y dyfarniad dwbl hwn i ddarparu'r cymhwyster mwyaf priodol ar gyfer y mwyafrif o ddysgwyr. Bydd hwn yn parhau i fod yn gymhwyster haenog – gyda haen sylfaenol a haen uwch – fel y gall ysgolion gofrestru dysgwyr ar y lefel fwyaf addas. O 2026 ymlaen, bydd cymhwyster mathemateg ychwanegol lefel 2 ar gael hefyd, wedi'i gynllunio i adeiladu ar y dysgu o TGAU Mathemateg a Rhifedd ac i ddarparu cyfleoedd ymestyn a herio ychwanegol i ddysgwyr sydd â'r gallu neu'r diddordeb i ddatblygu eu sgiliau mathemategol ymhellach.

5.8.5 O ran dysgwyr sy'n dechrau ym mlwyddyn 10 yn 2025 a 2026 nad ydynt yn barod i ymgymryd â'r TGAU dyfarniad dwbl mewn mathemateg a rhifedd, dylent ddilyn cymhwyster lefel mynediad sy'n ymwneud â mathemateg a rhifedd. Fel rhan o'r Cymwysterau 14 i 16



DRAFT

Cenedlaethol, o 2027 ymlaen ochr yn ochr â'r cymwysterau TGAU, bydd cymhwyster Sylfaenol mewn mathemateg a rhifedd sy'n rhychwantu lefel mynediad a lefel 1, gan ddarparu llwybr amgen i gymhwyster rhifedd i rai dysgwyr.

5.8.6 O ran pob dysgwr unigol, ysgolion fydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y cymhwyster rhifedd mwyaf priodol. Yn y pen draw nhw fydd yn gyfrifol am y penderfyniad hwnnw, gan ystyried dewisiadau, dyheadau a llwybrau dysgwyr.

## 5.9 Gwyddoniaeth a Thechnoleg

5.9.1 Fel y disgrifir yn y cyflwyniad i'r Maes yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru, ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd gwyddoniaeth a thechnoleg yn ein byd modern.

5.9.2 O dan elfen *'Cymwysterau i annog ehangder'* yr Hawl i Ddysgu 14 i 16, cynghorir ysgolion i gynnig ystod o gyrsiau uchelgeisiol a digon heriol sy'n arwain at gymwysterau yn y Maes hwn, a fydd yn sicrhau ehangder o opsiynau i ddysgwyr. Byddai hyn yn ymestyn i gyrsiau mewn cyfrifiaduraeth a thechnoleg ddigidol.

5.9.3 Yn benodol, ym mlynyddoedd 10 ac 11, byddem yn cynghori ysgolion yn gryf i sicrhau bod pob dysgwr yn dilyn cwrs priodol, heriol ac uchelgeisiol sy'n arwain at gymhwyster mewn gwyddoniaeth.

5.9.4 Mae'r gyfres newydd o gymwysterau TGAU a wnaed i Gymru yn cynnig TGAU y Gwyddorau – dyfarniad dwbl. Cyflwynwyd y dyfarniad dwbl hwn i ddarparu'r cymhwyster mwyaf priodol ar gyfer y mwyafrif o ddysgwyr. Bydd hwn hefyd yn gymhwyster haenog – gyda haen sylfaenol a haen uwch – fel y gall ysgolion gofrestru dysgwyr ar y lefel fwyaf addas.

5.9.5 Bydd TGAU gwyddoniaeth integredig, dyfarniad sengl, amgen sy'n darparu llwybr arall i'r gyfran fach o ddysgwyr a fyddai'n elwa ar ddilyn cymhwyster gwyddoniaeth gyda llai o gynnwys na'r dyfarniad dwbl, o ystyried eu hamgylchiadau penodol. Nid yw'r cymhwyster dyfarniad sengl hwn wedi'i gynllunio i gefnogi cynnydd tuag at gwyddoniaeth TAG (UG a Safon Uwch).

5.9.6 Ni fydd y dyfarniad sengl hwn ar gael i'w addysgu hyd fis Medi 2026. Tan hynny, bydd y TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Sengl) yn gweithredu mewn ffordd debyg i ddysgwyr blwyddyn 10 yn 2025.

5.9.7 O ran pob dysgwr unigol, ysgolion fydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y cymhwyster gwyddoniaeth mwyaf priodol, ac yn y pen draw nhw fydd yn gyfrifol am y penderfyniad hwnnw, gan ystyried dewisiadau, dyheadau a llwybrau dysgwyr.

5.9.8 P'un a yw dysgwr yn dilyn cwrs sy'n arwain at gymhwyster mewn technoleg, cyfrifiadureg neu dechnoleg ddigidol ai peidio, mae'n hanfodol bod pob dysgwr yn cael y cyfleoedd i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben drwy ddysgu a phrofiadau yn y Maes hwn; gellir cynnig cyfleoedd o'r fath o dan elfen *'Dysgu a phrofiadau ehangach ar draws y cwricwlwm'* yr Hawl i Ddysgu 14 i 16.

5.9.9 Fel sgìl drawsgwricwlaidd, dylai cymhwysedd digidol fod yn rhan o gwricwlwm dysgwr a dylai pob ymarferydd fod yn cefnogi eu cynnydd yn hynny o beth. Cynghorir y dylai hyn hefyd ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau digidol gydag annibyniaeth

DRAFT

gynyddol mewn cyd-destunau amrywiol, ac y dylid eu cefnogi i fyfyrio ar eu cynnydd yn unol â'r egwyddorion cynnydd

## 5.10 Y Celfyddydau Mynegiannol

5.10.1 Fel y disgrifir yn y cyflwyniad i'r Maes o fewn fframwaith Cwricwlwm i Gymru, mae'r Maes hwn wedi'i gynllunio i ysgogi ac ennyn diddordeb dysgwyr a'u cymell i ddatblygu i'r eithaf eu sgiliau creadigol ac artistig ynghyd â'u sgiliau perfformio.

5.10.2 O dan elfen *'Cymwysterau i annog ehangder'* yr Hawl i Ddysgu 14 i 16, cynghorir ysgolion i gynnig ystod o gyrsiau uchelgeisiol a digon heriol sy'n arwain at gymwysterau yn y Maes hwn, a fydd yn sicrhau ehangder o opsiynau i ddysgwyr.

5.10.2 P'un a yw dysgwr yn dilyn cwrs sy'n arwain at gymhwyster mewn pwnc neu ddisgyblaeth yn y celfyddydau mynegiannol ai peidio, mae'n hanfodol bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben drwy ddysgu a phrofiadau yn y Maes hwn. Gellir cynnig cyfleoedd o'r fath o dan elfen *'Dysgu a phrofiadau ehangach ar draws y cwricwlwm'* yr Hawl i Ddysgu 14 i 16.

## 5.11 Iechyd a Lles

5.11.1 Fel y disgrifir yn y cyflwyniad i'r Maes o fewn fframwaith Cwricwlwm i Gymru, mae'r Maes hwn yn ymwneud â datblygu gallu dysgwyr i wynebu heriau a chyfleoedd bywyd. Elfennau sylfaenol y Maes hwn yw iechyd a datblygiad corfforol, iechyd meddwl, a lles emosiynol a chymdeithasol, a dylid cefnogi dysgwyr i ddeall sut mae gwahanol elfennau iechyd a lles yn gydgysylltiedig. Mae iechyd a lles da yn bwysig er mwyn galluogi dysgu llwyddiannus.

5.11.2 O dan yr elfen *'Cymwysterau i annog ehangder'*, cynghorir ysgolion i gynnig ystod o gymwysterau yn y Maes hwn, a fydd yn sicrhau ehangder o opsiynau i ddysgwyr.

5.11.3 At ddibenion sicrhau dysgu, mae'r Maes hwn yn cynnwys ystod eang o ddysgu sy'n hanfodol i alluogi pob dysgwr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben ac i'w cynnydd ehangach. Mae llawer o'r dysgu a bennir yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac mewn canllawiau statudol yn mynd y tu hwnt i unrhyw beth a fyddai'n cael ei asesu'n uniongyrchol o fewn cymhwyster. Gellir cynnig dysgu a chyfleoedd o'r fath o dan elfen *'Dysgu a phrofiadau ehangach ar draws y cwricwlwm'* yr Hawl i Ddysgu 14 i 16.

5.11.4 Yn ogystal â dull ysgol gyfan o fynd i'r afael â lles dysgwyr, byddai disgwyl i ysgolion gynnwys y canlynol yn eu cwricwlwm:

- cyfleoedd wythnosol i ddysgwyr fwynhau a datblygu eu galluoedd mewn gweithgareddau corfforol;
- cyfleoedd rheolaidd a chyson i ddysgwyr gefnogi eu hiechyd meddwl, eu lles emosiynol a'u cydberthnasau;
- cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu am agweddau eraill ar bob un o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a datblygu ymddygiadau cadarnhaol mewn perthynas â hwy.

5.11.5 I osgoi amheuaeth, rhaid i ysgolion barhau i ddarparu dysgu mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar gyfer pob dysgwr ym mlynyddoedd 10 ac 11 yn unol â gofynion y Ddeddf, y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r canllawiau. Fodd bynnag, mae hyn ar wahân i'r gofyniad i sicrhau dysgu yn y Maes hwn. Nid oes angen i'r dysgu hwn

DRAFT

arwain at unrhyw gymhwyster penodol; mater i ysgolion fydd cynllunio'r dull mwyaf priodol ar gyfer diwallu anghenion eu dysgwyr.

## 5.12 Y Dyniaethau

5.12.1 Fel y disgrifir yn y cyflwyniad i'r Maes hwn o fewn fframwaith Cwricwlwm i Gymru, mae'r Maes hwn yn ysgogi dysgwyr i ymwneud â'r materion pwysicaf sy'n wynebu dynoliaeth, gan gynnwys cynaliadwyedd a newid cymdeithasol, ac yn gymorth i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddehongli a disgrifio'r gorffennol a'r presennol.

5.12.2 O dan yr elfen *'Cymwysterau i annog ehangder'*, cynghorir ysgolion i gynnig ystod o gymwysterau yn y Maes hwn, a fydd yn sicrhau ehangder o opsiynau i ddysgwyr.

5.12.3 P'un a yw dysgwr yn dilyn cwrs sy'n arwain at gymhwyster mewn pwnc neu ddisgyblaeth yn y Dyniaethau ai peidio, mae'n hanfodol bod pob dysgwr yn cael y cyfleoedd i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben drwy ddysgu a phrofiadau yn y Maes hwn; gellir cynnig cyfleoedd o'r fath o dan elfen *'Dysgu a phrofiadau ehangach ar draws y cwricwlwm'*.

5.12.4 I osgoi amheuaeth, rhaid i ysgolion barhau i ddarparu dysgu mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer pob dysgwr ym mlynyddoedd 10 ac 11 yn unol â gofynion y Ddeddf, y Cod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r canllawiau. Fodd bynnag, mae hyn ar wahân i'r gofyniad i sicrhau dysgu yn y Maes hwn. Nid oes angen i'r dysgu hwn arwain at unrhyw gymhwyster penodol; mater i ysgolion fydd cynllunio'r dull mwyaf priodol ar gyfer diwallu anghenion eu dysgwyr.

## 5.13 Annibyniaeth a dysgu dyfnach

5.13.1 Wrth i ysgolion annog unigolion i ddod yn fwyfwy annibynnol ac effeithiol fel dysgwyr, dylid diogelu rhywfaint o amser cwricwlwm ar gyfer astudiaeth fwy annibynnol.

5.13.2 Dylid annog dysgwyr i drosglwyddo a gwneud cysylltiadau rhwng eu dysgu o fewn agweddau eraill ar eu hastudiaethau ac ar eu traws; dylid rhoi arweiniad, cefnogaeth ac amser iddynt ddyfnhau eu dealltwriaeth o fewn maes diddordeb penodol. Efallai y bydd cyfleoedd yma i ysgolion archwilio dysgu rhyngddisgyblaethol wrth iddynt gefnogi dysgwyr i archwilio'r cydgysylltiad rhwng eu dysgu a'u profiadau.

5.13.3 Gall cyrsiau, fel prosiect unigol y Dystysgrif Her Sgiliau, neu'r prosiect personol sy'n llunio rhan o gynnig Cymwysterau 14 i 16 Cenedlaethol o 2027 ymlaen, gael eu defnyddio gan ysgolion i hwyluso dysgu o'r math hwn.

5.13.4 Cydnabyddir na fydd y math hwn o dasg annibynnol estynedig yn briodol i garfan fach o ddysgwyr o bosibl; yng nghyswllt pob dysgwr unigol, yr ysgolion fydd yn y sefyllfa orau i wneud y penderfyniad hwnnw, a nhw yn y pen draw fydd yn gyfrifol am y penderfyniad hwnnw.

## 5.14 Bagloriaeth Cymru

5.14.1 Er y bydd y Dystysgrif Her Sgiliau yn parhau i fod ar gael i ddysgwyr sy'n dechrau blwyddyn 10 yn 2025 a 2026, bydd y cymhwyster cyfunol a elwir Bagloriaeth Cymru yn dod i ben yn haf 2026 (dyfarniad terfynol). (Hynny yw, ni fydd dysgwyr sy'n dechrau blwyddyn 10 o 2025 ymlaen yn gallu cwblhau Bagloriaeth Cymru.)

5.14.2 O 2025 ymlaen, dylai ysgolion sicrhau bod pob dysgwr ym mlynyddoedd 10 ac 11 yn cael set eang a chytbwys o ddysgu a phrofiadau, er mwyn caniatáu iddynt wneud cynnydd a chyflawni ym mhedair elfen yr Hawl i Ddysgu 14 i 16. Cynghorir ysgolion yn gryf i sicrhau bod y dysgu a'r profiadau ar gyfer pob dysgwr yn ddigon heriol a phriodol, yn unol â'r canllawiau hyn.

5.14.3 I osgoi amheuaeth, er na fydd Bagloriaeth Cymru yn bodoli mwyach fel cymhwyster cyfunol ar gyfer dysgwyr sy'n dechrau blwyddyn 10 yn 2025, anogir ysgolion i barhau i ddefnyddio'r Dystysgrif Her Sgiliau i gefnogi darpariaeth cwricwlwm dysgu a phrofiadau ehangach, fel rhan o'r Hawl i Ddysgu 14 i 16. Yn yr un modd, yn dilyn cyflwyno'r gyfres sgiliau arfaethedig yn 2027 (sy'n cynnwys sgiliau ar gyfer cymwysterau bywyd a gwaith a'r prosiect personol), a fydd yn adeiladu ar y Dystysgrif Her Sgiliau ac yn cymryd ei lle, mae'n siŵr y bydd y cynnig ehangach hwn yn ddefnyddiol i ysgolion wrth gefnogi darpariaeth dysgu 14 i 16 yn unol â'r uchod.

## 5.15 Astudio ar gyfer cymwysterau ac eithrio ym mlynyddoedd 10 ac 11

5.15.1 Mae canllawiau'r cwricwlwm yn glir o ran cynnydd mewn dysgu ar hyd y continwwm 3 i 16 yn ogystal ag ehangder disgwyliedig y dysgu hwnnw. Mae'n hanfodol bod ysgolion yn datblygu eu trefniadau cwricwlwm i adlewyrchu'r cynnydd a'r ehangder hwnnw mewn dysgu, gan ganiatáu lle ac amser priodol hyd at a chan gynnwys blwyddyn 9 i hynny ddigwydd ar draws pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig. O'r herwydd, ni fyddai'n briodol i ysgolion ddechrau cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau yn gynharach nag ym mlwyddyn 10 pan fo hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol gyfyngu'r cwricwlwm ar gyfer y dysgwyr iau hyn ac, wrth wneud hynny, atal dysgwyr rhag ymdrin â'r holl ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig, ochr yn ochr ag agweddau gorfodol eraill ar ddysgu ac addysgu.

DRAFT

## 6. Hunanwerthuso a gwella

6.1 Yr ysgolion sy'n gyfrifol yn y pen draw am y cwricwlwm a ddarperir i bob dysgwr ar hyd y cwricwlwm 3 i 16. Ym mlynyddoedd 10 ac 11 bydd y cwricwlwm hwn yn cynnwys rhai o'r dewisiadau a wneir gan ddysgwyr o ran eu cymwysterau. Mae'r canllawiau hyn yn nodi polisi Llywodraeth Cymru, sef bod gan bob dysgwr, ni waeth beth fo'u dewisiadau, yr hawl i orffen eu cyfnod addysg orfodol yn 16 oed yn gallu dangos eu dysgu, eu cynnydd a'u cyflawniadau yn unol â Phroffil Dysgwyr Cwricwlwm i Gymru.

6.2 Fel rhan o'u prosesau hunanwerthuso a gwella, dylai ysgolion werthuso a myfyrio ar y canlynol:

- eu cynnig cwricwlwm i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11, gan sicrhau bod hyn yn caniatáu i bob dysgwr gyflawni a chael mynediad at brofiadau dysgu ar draws y pedair elfen;
- ansawdd y cwricwlwm, y dysgu a'r addysgu a gynigir i bob dysgwr unigol ym mlynyddoedd 10 ac 11. Yn benodol, dylai ysgolion ystyried i ba raddau y mae pob dysgwr, ar ôl cwblhau eu haddysg ym mlwyddyn 11, wedi gwneud cynnydd priodol ar draws holl elfennau’r Hawl i Ddysgu 14 i 16, gan ddefnyddio ystod o wybodaeth a thystiolaeth am unigolion a grwpiau o ddysgwyr.

6.3 Fel rhan o'u prosesau hunanwerthuso a gwella, dylai ysgolion felly fonitro a myfyrio ar ddysgu, cynnydd a chyflawniad eu dysgwyr yn unol â'r elfennau hyn. Pan fo ysgolion yn pryderu y bydd dysgwr yn cwblhau addysg orfodol heb ddysgu, heb wneud cynnydd neu heb gyflawniadau mewn un neu ragor o elfennau, dylent roi gwybod i'r awdurdod lleol fel y gellir darparu cymorth digonol i'r dysgwr hwn wrth iddo bontio i ôl-16.

6.4 Dylai casgliadau'r gwerthusiadau hyn lywio trefniadau cynllunio gwella ysgolion.

6.5 Rydym yn cydnabod y bydd amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth y gall ysgolion ei defnyddio ar lefel ysgol ac ar lefel dysgwr unigol i werthuso eu cynnig cwricwlwm ac a ydynt yn bodloni'r gofynion a nodir yn y canllawiau, gan gynnwys gwybodaeth am gofrestriadau a deilliannau cymwysterau. Dylai rhan sylweddol o'r dystiolaeth hon hefyd gynnwys y ffordd y gall eu dysgwyr fyfyrio ar eu dysgu a'u cynnydd, a pha mor hyderus y maent yn teimlo ynghylch pontio i ôl-16.

6.6 Cynghorir ysgolion, fel rhan o'u rhwymedigaethau statudol wrth ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, i drafod a gwerthuso eu cynnig cwricwlwm blynyddoedd 10 ac 11 gydag ysgolion uwchradd eraill; bydd hyn yn helpu ysgolion i gael gwell dealltwriaeth o ansawdd eu cwricwlwm er mwyn cael ymdeimlad gwybodus o'i disgwyliadau ar gyfer cynnydd a chyflawniad dysgwr.

6.7 Un ffordd o fodloni'r gofyniad hwn yw i ysgolion uwchradd gyfarfod ar yr achlysuron canlynol yn ystod pob blwyddyn academaidd.

- Yn gynnar yn nhymor yr hydref - i fyfyrio ar y dysgwyr blwyddyn 11 hynny a adawodd addysg orfodol yn nhymor yr haf blaenorol. Yma, gallai ysgolion ystyried dysgu, cynnydd a chyflawniadau priodol dysgwyr ym mhob elfen o Broffil Dysgwr Cwricwlwm i Gymru a sut mae'r cynnydd hwnnw ar hyd y continwwm 3 i 16 wedi eu cefnogi i symud ymlaen i ôl-16.

DRAFT

- Yn ddiweddarach yn nhymor yr hydref neu'n gynnar yn nhymor y gwanwyn – i ystyried cynnydd priodol, dysgu, cyflawniadau a chynlluniau ôl-16 y dysgwyr yn eu carfan blwyddyn 11 bresennol.

6.8 Dylai cynghorwyr gwella helpu i hwyluso'r gwerthusiad hwn a datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd rhwng ysgolion, fel rhan o'u rôl ehangach o ran hyrwyddo, brocera a goruchwylio cydweithio a chlystyrau rhwng ysgolion a gwaith clwstwr. Wrth weithio gydag ysgolion unigol, byddant hefyd yn darparu adborth a chymorth ar drefniadau hunanwerthuso ysgolion, gan ystyried gwerthuso cynnydd dysgwyr ar draws holl elfennau'r Hawl i Ddysgu 14 i 16.

6.9 Fodd bynnag, ni ddylai gwaith i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd rhwng ysgolion uwchradd gael ei gyfyngu i ddysgwyr ym mlwyddyn 11.

6.10 Mae'r cyngor a nodir yn y canllawiau hyn, sy'n canolbwyntio ar yr Hawl i Ddysgu 14 i 16, yn crynhoi'r elfennau hynny o ddysgu 14 i 16 y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn bwysicaf i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11. Fe'u defnyddir felly i helpu i bennu un elfen o'r wybodaeth a'r dystiolaeth y dylid eu defnyddio ar wahanol lefelau system yr ysgol at ddibenion gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, wrth i ni ddatblygu ecosystem wybodaeth ddiwygiedig sy'n cefnogi ein hamcanion polisi.

6.11 Gan dynnu ar y canllawiau hyn, byddwn yn datblygu cynigion ar gyfer yr ecosystem wybodaeth yn 2024, gan barhau i weithio gydag ymarferwyr ac arweinwyr a rhannu cynigion gyda'r sector. A hynny fel y gallwn gwblhau trefniadau newydd erbyn haf 2025, yn barod ar gyfer addysgu dysgwyr blwyddyn 10 o fewn Cwricwlwm i Gymru.

DRAFT